

Storïau unigol: safbwyntiau ar waith cymdeithasol

This content is taken from [an Open University module], which was originally published as an open educational resource on the OpenLearn website [<http://www.open.edu/openlearn/>]. This content may include video, images and interactive content that may not be optimised for your device. To view the original version of this content please go to OpenLearn – [<http://www.open.edu/openlearn/>].

If reading this text has inspired you to learn more, you may be interested in joining the millions of people who discover our free learning resources and qualifications by visiting The Open University [<http://www.open.ac.uk/choose/ou/open-content/>].

Copyright © 2014 The Open University

Except for third party materials and/or otherwise stated (see terms and conditions [<http://www.open.ac.uk/conditions/>]) the content in OpenLearn and OpenLearn Works is released for use under the terms of the Creative Commons Attribution-NonCommercial-Sharealike 2.0 licence [<http://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/2.0/uk/>].

In short this allows you to use the content throughout the world without payment for non-commercial purposes in accordance with the Creative Commons non commercial sharealike licence. Please read this licence in full along with OpenLearn terms and conditions before making use of the content.

When using the content you must attribute us (The Open University) (the OU) and any identified author in accordance with the terms of the Creative Commons Licence.

The Acknowledgements section is used to list, amongst other things, third party (Proprietary), licensed content which is not subject to Creative Commons licensing. Proprietary content must be used (retained) intact and in context to the content at all times. The Acknowledgements section is also used to bring to your attention any other Special Restrictions which may apply to the content. For example there may be times when the Creative Commons Non-Commercial Sharealike licence does not apply to any of the content even if owned by us (the OU). In these stances, unless stated otherwise, the content may be used for personal and non-commercial use. We have also identified as Proprietary other material included in the content which is not subject to Creative Commons Licence. These are: OU logos, trading names and may extend to certain photographic and video images and sound recordings and any other material as may be brought to your attention.

Unauthorised use of any of the content may constitute a breach of the terms and conditions and/or intellectual property laws.

We reserve the right to alter, amend or bring to an end any terms and conditions provided here without notice.

All rights falling outside the terms of the Creative Commons licence are retained or controlled by The Open University.

Head of Intellectual Property, The Open University

Storïau unigol: safbwyntiau ar waith cymdeithasol

Contents

Cyflwyniad	4
Deilliannau dysgu	5
Cyfweliadau fideo	6
Trafodaeth	7
Casgliad	9
Cyfeiriadau	10
Cydnabyddiaethau	11

Cyflwyniad

Yn y gyfres hon o bedwar cyfweiliad, byddwch yn gwylio defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, gweithiwr cymdeithasol a rheolwr gwaith cymdeithasol yn siarad am eu profiadau gwahanol. Bydd y cyfweiliadau'n dangos pwysigrwydd gwrando ar storiâu pobl, pwysigrwydd cydberthnasau mewn ymarfer gwaith cymdeithasol a phwysigrwydd cyd-destun yr ymarfer gwaith cymdeithasol. Byddwch yn ystyried cwestiynau am y cyfweiliadau ac yn myfyrio ar oblygiadau'r hyn sydd gan yr unigolion i'w ddweud ar gyfer ymarfer.

Er y gallwch ddefnyddio'r cyfweiliadau fideo hyn fel adnoddau annibynnol, maent hefyd yn ategu'r cyrsiau ar-lein am ddim [Cyflwyniad i waith cymdeithasol](#), lle gallwch ddarllen mwy am weithio gydag unigolion a phwysigrwydd bywgraffiadau, a [Cyflwyniad i waith cymdeithasol yng Nghymru](#), lle byddwch yn dysgu am bwysigrwydd y cyd-destun Cymreig a'i effaith ar waith cymdeithasol yng Nghymru.

Gellir dod o hyd i ragor o gyrsiau a chymwysterau yn Gymraeg yma.

Deilliannau dysgu

Ar ôl astudio'r uned hon, dylech allu gwneud y canlynol:

- meddwl am effaith bywgraffiadau ar fywydau personol
- ystyried rôl cydberthnasau mewn ymarfer gwaith cymdeithasol
- ystyried pwysigrwydd y cyd-destun mewn ymarfer gwaith cymdeithasol.

Cyfweiliadau fideo

Dylech dreulio tua 45 munud ar y dasg honWrth ichi wyllo'r fideos, nodwch brofiadau bywyd gwahanol y siaradwyr. Ar ôl gwyllo'r fideos, atebwch y cwestiynau [isod]*.

Siân Parry - Defnyddiwr gwasanaeth

Video content is not available in this format.

Mr Howell Mudd - Gofalwr

Video content is not available in this format.

Mags Thomas - Gweithiwr cymdeithasol

Video content is not available in this format.

Linda Jones - Rheolwr gwaith cymdeithasol

Video content is not available in this format.

Pa ddigwyddiadau neu drobwyntiau a effeithiodd ar fywydau'r unigolion yn y fideos?

Gwnewch rai nodiadau am eich bywyd eich hun a'ch sefyllfa ar hyn o bryd. Pa ddigwyddiadau bywyd neu drobwyntiau sydd wedi effeithio arnoch chi a'r penderfyniadau a'r dewisiadau rydych wedi'u gwneud?

1. Beth rydych chi'n ei ddeall o'r cyfweiliadau am bwysigrwydd cydberthnasau mewn ymarfer gwaith cymdeithasol? (Gwrandewch yn benodol ar y gweithiwr cymdeithasol yn siarad am ddefnyddio ei phersonoliaeth.) Beth mae'r gofalwr yn ei olygu, yn eich barn chi, pan fydd yn dweud bod rhywbeth ar goll rhyngddo ef a'r gweithiwr cymdeithasol di-Gymraeg?
2. Pa nodweddion y mae'r unigolion yn y fideos yn awgrymu sydd eu hangen ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol da? Beth yw'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y nodweddion a nodwyd gan yr unigolion gwahanol?
3. Pa effaith y mae ymyriad gwaith cymdeithasol wedi'i chael ar fywyd y defnyddiwr gwasanaeth? Y gofalwr? Pam ei bod yn bwysig i weithwyr cymdeithasol ddeall y wlad y maent yn gweithio ynddi ac anghenion iaith y bobl y maent yn gweithio gyda nhw?
4. Beth oedd y peth mwyaf y gwnaethoch ei ddysgu drwy wyllo'r cyfweiliadau a fyddai'n bwysig ar gyfer ymarfer gwaith cymdeithasol, yn eich barn chi?

Trafodaeth

Mae hwn yn weithgaredd personol ond gwerthfawr iawn. Mae nifer o wahaniaethau diwylliannol a gwahaniaethau eraill ym mhrofiadau bywgraffiadol unigolion sy'n dylanwadu mewn ffyrdd amrywiol ar eu bywydau a'u hagweddau presennol, ac mae'n bwysig ein bod yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth hwn.

Mae pobl yn dewis gwaith cymdeithasol am bob math o resymau: er mwyn gwneud daioni; er mwyn helpu eraill; oherwydd eu cefndir teuluol eu hunain neu brofiad o golled, salwch neu anabled; er mwyn wynebu eu problemau eu hunain neu, yn syml, ar hap.

Yn ôl arolwg o fyfyrwyr a oedd yn dilyn hyfforddiant gwaith cymdeithasol yn 2011, gwelwyd bod ffactorau personol a ffactorau o ran gyrfa wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i ddewis astudio gwaith cymdeithasol. Roedd y cymhellion yn gysylltiedig â'r elfennau canlynol:

1. Allgaredd - awydd i wneud gwahaniaeth, helpu eraill a brwydro yn erbyn anghyfiawnder.
2. Nodweddion personol a phrofiad y myfyriwr - y gallu i gyd-dynnu â phobl, gweithio mewn tîm ac, i rai, roedd yn ddewis gyrfa addas oherwydd eu profiadau bywyd.
3. Ffactorau gyrfa - fel swydd hyblyg sydd â chyflog da a rhagolygon gyrfa da.
4. Natur y gwaith o ddydd i ddydd - amrywiaeth, lefel uchel o foddhad swydd a chyfrifoldeb personol.

(Yn seiliedig ar Stevens et al., 2012)

Fel y mae'r ddau weithiwr cymdeithasol yn y fideos yn dangos, mae llunio'r cysylltiad rhwng profiad personol a'r hyn y mae gweithwyr cymdeithasol yn ei gynnig i'w hymarfer yn gam cynnar pwysig i ddod yn ymarferydd myfyriol.

Mae ymarfer gwaith cymdeithasol da yn ymwneud yn bennaf â chydberthnasau (Wilson et al., 2011) ac ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr ac eraill er mwyn eu galluogi i ddweud eu storïau. Meithrin cydberthynas dda yw'r man cychwyn i weithio 'gyda' phobl yn hytrach nag 'arnynt' (Beresford, 2012). Drwy'r gydberthynas broffesiynol hon y mae gweithwyr cymdeithasol yn ymgysylltu ag unigolyn ac yn ymyrryd yng nghymhlethdod ei fydoedd mewnol ac allanol (ibid), a dangosir hyn gan y gweithiwr cymdeithasol yn y fideo wrth iddi sôn am sut y gwnaeth ddefnyddio ei phersonoliaeth (ei 'hun') i feithrin cydberthnasau â phobl ifanc mewn cartref hanner ffordd.

Fodd bynnag, daw'n fwy anodd meithrin cydberthynas dda pan nad yw anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu diwallu, fel y gwelir yn achos y gofalwr. Cafodd y gofalwr weithiwr cymdeithasol di-Gymraeg a oedd yn golygu ei bod yn fwy anodd iddo ymgysylltu â hi fel yr hoffai, gan fod yn rhaid iddo feddwl yn Gymraeg a siarad yn Saesneg. Er nad yw siarad Saesneg yn broblem iddo fel y cyfryw, byddai'r gydberthynas wedi bod yn haws pe bai wedi cael ei meithrin drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ôl yr egwyddor 'cynnig gweithredol' (CGC, 2014), yn y dyfodol, y gweithiwr proffesiynol fydd yn gyfrifol am nodi anghenion iaith yng Nghymru yn hytrach na'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r gofalwr (a all fod mewn sefyllfa o statws isel a diffyg pŵer yn barod, ac felly efallai na fydd yn teimlo ei fod yn gallu arfer ei hawl i ofyn am wasanaeth Cymraeg).

I ffwrdd o'r camera, awgrymodd y gofalwr, er bod rhoi gofal yn feichus o safbwynt corfforol ac emosiynol, y gallai'r gofalwr weld eisiau hynny pan fydd angen cymorth ychwanegol ar y person sy'n cael gofal a'i fod yn symud i ofal preswyl. Gall y bwllch sy'n cael ei adael gan y person hwnnw a diwedd y rôl 'ofalu' fod yn anodd iawn. Felly, mae'n bwysig cydnabod er

y gall ymyriadau gwaith cymdeithasol newid rhai agweddau ar fywydau pobl er gwell, gall canlyniadau ymyriadau olygu hefyd y bydd bywyd yn wahanol iawn i bawb dan sylw.

Casgliad

Mae rhinweddau neu nodweddion gweithiwr cymdeithasol da a nodwyd gan y pedwar unigolyn yn weddol debyg. Mae pwysigrwydd gwranddo a'r nodweddion eraill a grybwyllwyd yn adlewyrchu'r cynhesrwydd, empathi, dibynadwyedd a pharch y nododd Beresford (2012) y mae defnyddwyr gwasanaethau am eu gweld mewn gweithwyr cymdeithasol - hynny yw, yr un math o nodweddion y byddech yn disgwyl eu gweld mewn ffrind ffyddlon.

Cyfeiriadau

Beresford, P. (2012) 'What service users want from social workers', Community Care, dydd Gwener 27 Ebrill 2012 [ar-lein]. Ar gael yn

<http://www.communitycare.co.uk/2012/04/27/what-service-users-want-from-social-workers/#.U6naPJRdXAk>

Cyngor Gofal Cymru (2014) Y Gweithiwr Cymdeithasol, Caerdydd, CGC <http://www.cgycymru.org.uk/canllawiau-ymarfer-i-weithwyr-cymdeithasol/?force=2&bc=4143:4147> (cyrchwyd 24/06/2014)

Stevens, M., Moriarty, J., Manthorpe, J., Hussein, S., Sharpe, E., Orme, J., Mcyntyre, G., Cavanagh, K., Green-Lister, P. a Crisp, B.R. (2012) Helping others or a rewarding career? Investigating student motivations to train as social workers in England, *Journal of Social Work* cyf. 12, rhif 1, tud. 16–36.

Wilson, K., Ruch G., Lymbery M. a Cooper, A. (gol.) (2011) *Social Work: An introduction to contemporary practice*, Harlow, Pearson

Cydnabyddiaethau

Mae'r uned hon wedi ei ysgrifennu gan Judith Davies.

Mae'r deunydd a gydnabyddir isod yn Berchnogol ac fe'i defnyddir o dan drwydded, nid yw'n destun Trwydded Creative Commons. (Gweler [telerau ac amodau](#).)

Cydnabyddiaeth Ddiolchgar yn cael ei wneud at y ffynonellau canlynol am ganiatâd i atgynhyrchu deunydd yn yr uned hon:

Cyngor Sir Caerfyrddin

Mr Howell Mudd

Rhagor o wybodaeth am:

Dysgu mwy

1. **astudiaethau Cymraeg** eraill ar y pwnc hwn
<https://www.open.edu/openlearn/society-politics-law/openlearn-cymru/openlearn-cymru-ewch-ach-dysgu-ymhellach>
2. cynnwys astudio cysylltiedig gan y **Brifysgol Agored**
<http://www.open.ac.uk/choose/ou/open-content>
3. y pwnc hwn a deunyddiau'r cwrs, sydd am ddim, ar **OpenLearn**
<http://www.open.edu/openlearn/>
4. **astudio o'r tu allan i'r DU?** Mae gennym fyfyrwyr mewn dros gant o wledydd sy'n astudio cymwysterau ar-lein. <http://www.openuniversity.edu/>